George Fielden MacLeod 1895–1991

Gweinidog a sefydlydd Cymuned Iona

Ganwyd George Fielden MacLeod ar 17 Mehefin 1895 yn 4 Park Circus Place, Glasgow, yn fab i Sir John Mackintosh MacLeod, cyfrifydd ac Aelod Seneddol Unoliaethol Canol Glasgow, ac Edith, merch Aelod Seneddol Ceidwadol Gorllewin Riding.

Roedd George MacLeod yn un o arweinyddion Cristnogol mwyaf carismataidd yr Alban yn ystod yr ugeinfed ganrif. Etifeddodd gyfoeth mawr ar ochr ei fam ond gweithredodd trwy gydol ei oes fel Cristion sosialaidd oedd â chonsyrn mawr dros y difreintiedig.

Wedi iddo dderbyn addysg yn Ysgol Cargilfield, Caeredin, Coleg Winchester a Choleg Oriel, Rhydychen, ymunodd â'r Argyll and Sutherland Highlanders ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Ymladdodd yn ddewr yng Ngwlad Groeg ac enillodd y Croix de Guerre ym 1918. Yn ddiweddarach fodd bynnag fe'i hargyhoeddwyd o heddychiaeth ac ymaelododd gyda'r Fellowship of Reconciliation (Cymdeithas y Cymod). Wedi iddo raddio yn Rhydychen ym 1919 aeth yn ôl i'r Alban i astudio Diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Caeredin ac o'r fan honno aeth i'r Union Theological Seminary yn Efrog Newydd. Tra oedd yno daeth o dan ddylanwad mawr 'Tubby' Clayton, sylfaenydd y Toc H, ac fe arweiniodd hyn iddo weithio yn ddiweddarach dros Toc H yn Glasgow. (Ym 1924 ordeiniwyd ef yn gaplan llawn amser i'r Toc H yn Glasgow.) Pan ddychwelodd o'r Unol Daleithiau ym 1922 aeth yn gynorthwyydd yn eglwys Sant Giles, High Kirk Caeredin, ynghanol ardal fawr ddifreintiedig. Yno gweithiodd yn ddiflino dros fechgyn yn y slymiau a daeth yn bregethwr o fri. Ym 1926 derbyniodd alwad i eglwys Sant Cuthbert yn yr un ddinas lle y deuai cynulleidfaoedd mawr i wrando arno yn pregethu.

Ar ddechrau'r tridegau daeth gweddnewidiad yn ei weinidogaeth pan symudodd i eglwys y plwyf yn ardal dosbarth gweithiol Govan lle roedd tlodi a diweithdra enbyd. Cynddeiriogodd wrth weld y tlodi oedd yno a dechreuodd ar weinidogaeth arbennig o weithredu'n gymdeithasol.

Gwaetha'r modd bu'n rhaid iddo gael seibiant ym 1932–3 oherwydd iselder ysbryd. Yn dilyn y cyfnod hwn aeth ati i sefydlu Cymuned Iona. Dywed MacLeod fod yr ysbrydoliaeth wedi dod o'i brofiadau yn Govan ond arhosodd y digwyddiad canlynol yn ei gof. Galwyd ef un tro i'r ysbyty i weld dyn oedd yn marw o newyn. Pan aeth yno gwelodd mai Archie Gray oedd y dyn, gŵr a oedd byth a beunydd yn torri ar draws ei bregethau. Yr oedd Archie 'yn chwerw am yr Eglwys, nid oherwydd ei bod yn pregethu celwyddau ond oherwydd ei bod yn cyhoeddi gwirionedd heb olygu'r hyn a ddywedai.' 'Archie Gray,' yn ôl MacLeod, 'oedd gwir sylfaenydd Cymuned Iona.' Symudodd MacLeod i Ynys Iona. Rhan fawr o'r gwaith ar y dechrau oedd ailadeiladu'r Abaty a chwblhawyd hynny ym 1965. Gwelai ei hun fel Sant Columba yr oes newydd ac aeth ati i geisio adfywio'r hen Gristnogaeth Geltaidd a'i thraddodiadau.

Gellir gweld y syniadaeth a'i hysgogodd i sefydlu Cymuned Iona yn ei lyfr *We Shall Re-Build: the Work of the Iona Community on Mainland and Island* (1944). Y nod oedd adfywio'r Eglwys yn yr Alban a Phresbyteriaeth yn gyffredinol. Bwriadwyd gwireddu'r nod hwn trwy ddod â chenhadaeth yn ôl i ganol y gweithgareddau eglwysig ac adfywio'r plwyfi a'r cynulleidfaoedd. Cyhoeddodd nifer o lyfrau eraill yn cynnwys *Speaking the Truth in love: the Modern Preacher's Task* (1936) ac *Only One Way Left* (1956).

Priododd ei gyfnither Lorna Helen Janet Macleod ym mis Awst 1948 ac fe gawsant dri o blant. Ar y dechrau dim ond dynion oedd yn y Gymuned a'r rhan fwyaf ohonynt yn wŷr ifanc, darpar weinidogion yn bennaf, rhai gweinidogion hŷn ac ychydig grefftwyr. Gwisgid lifrai, siwt las tywyll, crys a thei. Disgwylid i bawb fynychu pob un o'r gwasanaethau a bwyteid prydau bwyd ar y cyd. Yn dilyn yr Ail Ryfel Byd wrth i'r Gymuned dyfu pwysleisid fwyfwy heddwch a chyfiawnder. Daeth yr Abaty yn Iona yn fyd-enwog fel canolfan addoliad amgen ac adnewyddiad ysbrydol.

Ym 1967 fe'i gwnaed yn Arglwydd am oes gyda'r teitl Baron MacLeod of Fuinary. Bu farw yn ei gartref 23 Learmonth Terrace, Caeredin, ar 27 Mehefin 1991. Gwasgarwyd peth o'i lwch ar Iona a chladdwyd y gweddill ym medd ei wraig yn Inverness.